

## **Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd - Staff, Myfyrwyr a'r Gymuned**

Mae ein Strategaeth Gynaliadwyedd yn ceisio:

'Datblygu diwylliant o stiwardiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff, myfyrwyr, ymwelwyr a'r gymuned leol i gefnogi newid ymddygiad cadarnhaol.'

Mae'r Brifysgol yn trefnu ei gwelliant parhaus trwy System Rheoli Amgylcheddol (SRhA), a chaiff perfformiad ei fesur yn ffurfiol yn erbyn gofynion ISO 14001:2015.

### **Amcanion Ymgysylltu â Chynaliadwyedd**

#### **1 Hysbysu**

Byddwn ni'n dweud wrth ein campws a'n cymunedau lleol am uchelgais, gweithgareddau, heriau a chyflawniadau cynaliadwyedd y Brifysgol. Byddwn ni'n ategu ein negeseuon â gwybodaeth glir yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn annog trafodaeth a dadl i alluogi ein cymunedau i fod â rhan yn ein nodau cynaliadwyedd. Byddwn ni'n darparu diweddariadau clir a rheolaidd ar yr amrywiaeth lawn o gamau gweithredu a chyfleoedd cynaliadwyedd ledled y Brifysgol.

#### **2 Cynyddu ymgysylltiad**

Rydym yn deall pwysigrwydd cynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac felly byddwn ni'n ceisio dulliau newydd ac amrywiol i'r Brifysgol a'n cymunedau lleol ymgysylltu â datblygu ein blaenoriaethau cynaliadwyedd a chyfrannu atynt.

#### **3 Ysbrydoli**

Grymuso cynaliadwyedd: Rydym eisiau i'n myfyrwyr, staff a'r gymuned leol arwain ac ysbrydoli newid cadarnhaol yn y dyfodol. Bydd ein gwaith yn darparu cyfleoedd i'n cymunedau ennill profiad a derbyn cymorth ymarferol wrth droi eu syniadau yn arfer: o newidiadau syml i ffordd o fyw ac o fewn cartrefi i brosiectau cymunedol cychwynnol.

### **Cyfathrebu Cynaliadwyedd - fe wnawn ni**

- Sicrhau negeseuon clir a chryno ar gynaliadwyedd sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa trwy InSite / Teledu / Cyfryngau Cymdeithasol / Adroddiad Lles / Adroddiad Blynyddol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Fynegi llwyddiant ein gweithredoedd yn agored ac yn dryloyw trwy Adroddiad Blynyddol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd / InSite / gwefan y Brifysgol / Cyfryngau Cymdeithasol
- Gryfhau ac ymestyn partneriaethau strategol allanol perthnasol i wella dealltwriaeth ein myfyrwyr, staff a chymunedau allanol o gynaliadwyedd trwy rwydwaith Busnes yn y Gymuned Cymru; Cadwch Gymru'n Daclus; Caffi Atgyweirio Cymru / Strategaeth Undeb y Myfyrwyr
- Rymuso unigolion a grwpiau i hyrwyddo cynaliadwyedd o fewn a thu allan i'r sefydliad trwy Sefydlu (e-fodiwl gorfodol ar gyfer pob dechreuwr newydd) / Datblygu staff / Marchnadoedd Buddion - sioeau teithiol / Diwrnodau Cymunedol / Gweithdai Gwyrdd / rhaglen Bywyd Pres / Caffis Atgyweirio / hwb Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer y gymuned / sefydliad Ail-lenwi / Strategaeth Undeb y Myfyrwyr
- Weithio gyda phartneriaid i gynig rhaglen o weithgareddau arloesol sy'n annog cynaliadwyedd trwy hwb Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer y gymuned / Gwobr Met Caerdydd / Caffi Atgyweirio Cymru, sefydliad Ail-lenwi / Strategaeth Undeb y Myfyrwyr / Cyfryngau Cymdeithasol / Adroddiad Lles / Llwyddiannau mewn Gwobrau Allanol

- Darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwirfoddoli a gweithgareddau allgyrsiol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd trwy brosiectau'r Byd Go lawn / Diwrnodau Cymunedol / Gwobr Met Caerdydd / Archwilwyr mewnol myfyrwyr / datganiad EDGE / HEAR / Llety Caerdydd - Hyrwyddwyr Amgylcheddol / Strategaeth Undeb y Myfyrwyr
- Gynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am ailgylchu ac ailddefnyddio ymhlith staff, myfyrwyr a'n cymunedau trwy'r Strategaeth a Chynllun Rheoli Gwastraff / safle ailddefnyddio / Prynu a Gwerthu / Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd / Diwrnodau Cymunedol / Caffi Atgyweirio
- Barhau i hyrwyddo dewisiadau amgen i deithio mewn car, yn enwedig teithio mewn car ar ben eich hun, trwy'r Cynllun Teithio / Cynllun Prynu Beiciau / Diwrnodau Cymunedol / Caffi Atgyweirio / Mentrau ar y Campws e.e. Next Bikes.

### **Cyfleoedd Ymgysylltu â Chynaliadwyedd**

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ymwybyddiaeth amgylcheddol fel agwedd allweddol yn ei System Rheoli Amgylcheddol, yn enwedig o ran nifer fawr y myfyrwyr, staff, ymwelwyr a chontractwyr ar y safle a'u pontio blynyddol, sy'n cyflwyno cymysgedd heriol o gefndiroedd, diwylliannau a diddordebau.

Defnyddir gwahanol ddulliau er mwyn ymgysylltu â phawb i ddechrau, ond hefyd i gysylltu â'r bobl gywir ar yr amser cywir, er enghraifft Wythnos Ewch yn Wyrdd, Ffair y Glas a'r modiwl e-ddysgu cynaliadwyedd ar gyfer sefydlu staff. Mae hefyd modiwlau sefydlu Neuaddau gorfodol i fyfyrwyr i gyfleu gwybodaeth am yr ailgylchu a gwastraff ar y Campws. Mae Ysgolion yn darparu sefydlu cynaliadwyedd i fyfyrwyr ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd.

Mae defnyddio pyrth mewnol i staff a myfyrwyr, posteri, e-byst, Twitter ac arwyddion yn parhau i gadarnhau'r neges ac yn parhau i drosglwyddo gwybodaeth am ddigwyddiadau, mentrau a chyfleoedd gwirfoddoli trwy gydol y flwyddyn academiaidd.

### **Enghreifftiau o'r Gyllideb Ymgysylltu â Chynaliadwyedd**

2020/21 - Lefelau gwariant disgwylidig		rhai enghreifftiau o wariant disgwylidig gweithgareddau cynaliadwyedd	
Achrediad / ardystiad	9530	Aelodaeth Environmental Association for Universities and Colleges (EAUC)	1400
		Ffi flynyddol Meddalwedd Amgylcheddol	1470
		ISOQAR - Archwilio a ffi reoli System Rheoli Amgylcheddol	3060
		Pecyn Cymorth People & Planet	2100
		Ffi Statws Masnach Deg	1500
Hyfforddiant Archwilwyr Myfyrwyr	2400	Hyfforddiant Archwilwyr Myfyrwyr (16 myfyriwr)	2400
Cyflwyniadau i Wobrau	2000	Cyflwyniadau ar gyfer Gwobrau (Gŵn Gwyrdd / IEMA / Baner Werdd / Campws Cyfeillgar i Ddraenogod	2000
Casglu gwastraff cwpanau coffi	2000	Casglu Cwpanau Coffi - Llandaf	1000
		Casglu Cwpanau Coffi - Cyncoed	1000
Adroddiad blynyddol	1800	Dylunio ac argraffu Adroddiad Blynyddol	1800
Digwyddiadau Staff / Myfyrwyr a Chymunedol	7180	Diwrnodau Cymunedol, Caffis Atgyweirio a Gwasanaeth Beiciau	3680
		Gweithdai Gwyrdd i Staff a Myfyrwyr	2500
		Nawdd Wythnos Ewch yn Wyrdd	1000
Prosiectau	240573	Gwenyn ar y Campws	1000
		Campws Cyfeillgar i Ddraenogod - creu tai ac arwyddion	1500
		Cynnal a chadw oeryddion dŵr	3268
		Rhannu Ceir Cyngor Caerdydd	300
		Cymhorthdal Met Wibiwr	40732
		Cyfleusterau seiclo	33022
		Beiciau Pwll	700
		Next Bikes	1700
		Staff ISO14001	101751
		Ariannu trydydd swyddog Cyswllt Myfyrwyr ar gyfer Llety Caerdydd	11600
		Buddsoddiad ar gyfer uwchraddio Ynni	45000
	265483		265483

### **Ymgynghoriad Cynaliadwyedd**

Syniadau Gwych - Mae gan staff, myfyrwyr, ymwelwyr a'r gymuned leol gyfle i wneud gwahaniaeth gyda syniadau cynaliadwyedd. Mae croeso i bob syniad cynaliadwyedd, mae'r syniadau hyn yn cael eu cyflwyno a'u hystyried yn y Pwyllgor Cynaliadwyedd tymhorol.

Grwpiau Ffocws - Mae'r broses ymgynghori ar gyfer polisïau a strategaethau'n rhoi'r cyfle i staff, myfyrwyr, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill ddarparu adborth naill ai'n bersonol neu ar-lein mewn grwpiau ffocws, yn ogystal â thrwy gydol y flwyddyn trwy e-bostio'r adran gynaliadwyedd. Cyflwynir yr adborth a dderbynnir i'w ystyried yn ffurfiol trwy Bwyllgor Cynaliadwyedd y Brifysgol neu weithgorau. Ystyrir yr adborth hwn yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r holl bolisïau a strategaethau cynaliadwyedd.

### **Adrodd ar gynnydd**

Yn agwedd allweddol yn ein SRhA, mae Ymwybyddiaeth Amgylcheddol yn cynnwys targedau ac amcanion penodol ar gyfer gwella'n barhaus. Adroddir ar adnoddau, cyllideb a chynnydd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd tymhorol.

Maes Effaith	Amcan	Targed	Dangosyddion / Mesurau	Cyfrifoldeb
Ymwybyddiaeth Amgylcheddol	Cynyddu gweithgareddau ymwybyddiaeth, Campws ac o fewn y Gymuned	Codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd ymhlith staff Met Caerdydd, myfyrwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned leol gyda digwyddiadau a chyfathrebu.  Cynnal ISO 14001: 2015.  Gwella safle yn nhabl Cynghrair Gwyrdd P&P.	1) Adroddiadau misol ar y math o ddigwyddiadau, eu nifer a'u heffaith.  2) Cynnal gwelliant parhaus gydag ISO 14001 a chyflawni dim anghydfurfiaeth.  3) Gwella ar 68 <sup>ain</sup> o gynghrair 2019.	Rheolwr Ymgysylltu Cynaliadwyedd

### **Perfformiad sylfaenol**

Cam gweithredu	Llinell sylfaenol (2019)	Targed 2020	Targed 2021	Targed 2022
1 - Adrodd ar fath y digwyddiadau a'u nifer	6 x Gweithdy Gwyrdd 6 x Diwrnod Cymunedol 12 x Caffi Atgyweirio 6 x Gwasanaethu Beiciau Am Ddim Digwyddiadau Wythnos Ewch yn Wyrdd 4 x Darlithoedd gwadd 3 x Rownd derfynol Gwobrau	10% ar ben y llinell sylfaenol, gwelliant yn nifer y digwyddiadau dros y 3 blynedd nesaf	10% ar ben y llinell sylfaenol, gwelliant yn nifer y digwyddiadau dros y 3 blynedd nesaf	10% ar ben y llinell sylfaenol, gwelliant yn nifer y digwyddiadau dros y 3 blynedd nesaf

2- Cynnal gwelliant parhaus gydag ISO 14001 a chyflawni dim anghydfurfiaeth	Codwyd 2 fân anghydfurfiaeth	Cyflawni dim anghydfurfiaeth	Cyflawni dim anghydfurfiaeth	Cyflawni dim anghydfurfiaeth
3 - Gwella ar 68ain o gynghrair Gwyrdd People and Planet 2019	Safle cynghrair 2019, 68 <sup>ain</sup>	Cyrraedd safle yn y 10 uchaf yn y 3 blynedd nesaf	Cyrraedd safle yn y 10 uchaf yn y 3 blynedd nesaf	Cyrraedd safle yn y 10 uchaf yn y 3 blynedd nesaf

### **Sut i gymryd rhan**

Dilynwch @CMetSEngagement ar Twitter

Ewch i fwrw golwg dros ein gwefan

<https://www.metcaerdydd.ac.uk/about/sustainability/Pages/default.aspx>

*“Cafodd y ddogfen hon ei chreu, ei hadolygu a’i chymeradwyo gan Bwyllgor Cynaliadwyedd Ebrill 2020, yn cynnwys yr Is-Ganghellor, Partneriaethau ac Ymgysylltu Allanol, Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd, Perchnogion Agweddau SRhA, Undeb y Myfyrwyr - Llywydd UM a Swyddog Amgylcheddol Rhan Amser UM, Undebau Llafur a chynrychiolwyr Academaidd Ysgolion.*

*Cyflwynwyd y drafft i ymgynghoriadau Grŵp Ffocws o staff a myfyrwyr gwirfoddol, fe’i diweddarwyd a’i cymeradwywyd ym Mhwyllgor Cynaliadwyedd 3ydd Medi 2020.*

*Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wirfoddoli gyda'r Strategaeth Gynaliadwyedd / adolygu Polisi, cysylltwch â [Sustainability@cardiffmet.ac.uk](mailto:Sustainability@cardiffmet.ac.uk)”*